
# Blwyddlyfr CHIPAC 2009



Clwb Hwylio
PWLLHELI
Sailing Club




# Optimists dan adain

Alan Williams  Awst 2009

# Cynnwys - Contents


4 Cyflwyniad / Introduction

5 Newyddion / News

9 CYRC

10 Datblygiad Proffesiynol / Professional Development

11 Hwylwyr Sgwads / Representative sailors

20 Tymor cyntaf CHIPAC / First Season

24 Prif Gystadlaethau / Major Championships

33 Solomon

36 Cymdeithasu / Gallery


Clawr: Iago Davies yn Grafham Llun Peter Newton



Indeg Owen, Pwllheli

# CHIPAC 2009

**Croeso** i flwyddlyfr CHIPAC. Nod y llyfryn yma yw rhoi rhywfaint o flas ar lwyddiannau CHIPAC yn ystod 2009. Mae CHIPAC erbyn hyn wedi tyfu ac mae llawer o ieuenctid Pwllheli yn cystadlu ar lefel ryngwladol, ond yn bwysicach yn cael mwynhau hwylio a chymryd mantais o'r adnoddau naturiol gwych sydd ar ein stepan drws. Wrth edrych ymlaen at 2010 mae'r dyfodol yn edrych yn addawol iawn gan fod llawer o wirfoddolwyr wedi cytuno i wneud y cwrs hyfforddwyr dingi. Hoffwn ar ran y pwyllgor ieuenctid ddiolch i'r gwirfoddolwyr a noddwyr sydd wedi helpu ieuenctid Pwllheli a'r cylch i gael y cyfle i fwynhau hwylio. Mae'r dyfodol yn addawol iawn.

**Diolch** o galon i pawb.
**Eifion Owen,**
**Cadeirydd Pwyllgor Ieuenctid,**
**Clwb Hwylio Pwllheli**

**Welcome** to the CHIPAC annual review. This magazine highlights some of the successes and developments that have happened in CHIPAC in 2009. CHIPAC has expanded greatly since it started in 1994 and we now have many young local sailors competing in international events, but possibly more important taking advantage of the fantastic sailing opportunities available at Pwllheli sailing club. Looking forward to 2010 we will undoubtedly be helping more children to sail as a number of people have volunteered to become dinghy instructors. On behalf of the committee I would like to thank all the volunteers and sponsors for their continued support. Sailing at Pwllheli is fantastic, together we can make it even better.

A big **thank you**
**Eifion Owen,**
**Chairman Youth Sailing Committee ,**
**Pwllheli Sailing Club**

## DO FE GAWSON NI HAF! - CYSTADLEUAETH CYRC




**TRAETH BYCHAN, YNYS MÔN**

# Newyddion - Rhagfyr 2009 December - News



**CHIPAC** oedd yn croesawu'r Regata Nadolig ar Ragfyr 12. Roedd 33 yn cystadlu a 16 ohonyn nhw dan faner CHP.

Enillodd hwylwyr Pwllheli yn y dosbarthiadau canlynol:- 1af dosb Hyfforddi Optimist, Christopher Jones, 1af Fflyd Hyfforddi Topper, Jordan Lee, a 1af Fflyd Handicap Cyffredinol, Will Filby. Cyflwynwyd Tarian Pencampwriaeth CYRC Gogledd Cymru i CHIPAC gan y WYA am fod y clwb mwyaf llwyddiannus yn 2009. Dros y tymor cafodd CHIPAC 73 pwynt gyda Felinheli'n ail efo 31 pwynt.

I'ch dyddiadur- cychwyn tymor newydd i hwylwyr newydd ar Ebrill 23 2010. Cysylltwch â Gwyndaf i roi'ch enw i lawr.

Mae ganddon ni 9 o hyfforddwyr newydd ar y Dinghy ar gyfer 2010 a gyda help y WYA rydan ni am redeg cwrs hyfforddi Dinghy ym mis Mawrth 2010. Mae 3 arall wedi gwirfoddoli i fod yn hyfforddwyr cynorthwyol. Bydd Eifion Owen a Richard Jones yn mynd i Blas Menai Fis Mawrth i geisio bod yn Uwch Hyf-

The annual Christmas regatta was hosted by CHPSC on December 12th. Overall there were 33 entries with 16 sailing under the PSC burgee.

Pwllheli sailors won the following classes:- 1st Training Optimist class , Christopher Jones, 1st Topper training fleet , Jordan Lee, and 1st General Handicap fleet , Will Filby. The North Wales CYRC championships shield was also presented to CHIPAC from WYA for being the most successful club in 2009. Over the season CHIPAC got 73 points with the nearest club Felinheli gaining 31 points.

The winter open training has been held at Pwllheli for the first time with 15 young sailors being coached by our home grown Siwan Roberts , with the expertise of Ben Iliffe both helping our developing Dinghy Instructors and youth sailors.

Dates for the diary.- The new season starts for new sailors on April 23rd 2010 contact Gwyndaf to get your name on the list.



Uchod: Siwan Roberts, Pwllheli

forddwyr. Mae Richard Jones hefyd ar gwrs i fod yn hyfforddwr rasio lefel 2.

Mae Mike Butterfield, Cydlynydd Rheoli Rasys RYA Gogledd Cymru yn cynnal cwrs gyda'r nos ar Chwefror 10 i ddysgu gwirfoddolwyr i fod yn swyddogion rasys a bydd noson ar ddiogelu plant yn cael ei gynnal ar Chwefror 9.

Archebwyd 12 cwch Optimist newydd gan Hartley Laminates. Talwyd am y rhain drwy werthu'r hen rai coed a hefyd drwy help grantiau gan **Gyngor Chwaraeon Cymru** a **Cist Gwynedd**. Mae 4 Optimist wedi eu gwerthu – glwb Hwylio Shotwick.

Newidiadau i'r pwyllgor hyfforddi Iau. Mae Jane Butterworth wedi gwirfoddoli o ofalu

We have identified 9 new Dinghy instructor for 2010 and with the help of WYA we intend to run a Dinghy instructor course at the club in March 2010. 3 other volunteers have volunteered to become assistant instructors. Eifion Owen and Richard Jones will be going to Plas Menai in March to try and become Senior instructors. Richard Jones is also going on a course to be a level 2 racing coach.

Mike Butterfield is holding an evenings course on February 10th to teach volunteers how to become club race officers and a child protection evening will be held on February 9th.

12 new Optimists have been ordered from Hartley Laminates. These have been paid for by selling the old wooden optimists and



am y marchnata o fwn y clwb a gwahoddwyd Amlyn ap Iorwerth i ymuno â'r pwyllgor oherwydd ei sgiliau codi arian. Hefyd cyfetholwyd Ffion Williams o Cymunedau Cyntaf ar y pwyllgor.

Mae gan Goleg Meirion Dwyfor gyda help grant o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) gwch achub rib newydd. Caiff y rib ei lansio'n swyddogol ym Mis Mai a'i galw'n Solomon, er cof am Solomon Andrews ddatblygodd gymaint o dre Pwllheli ym 1890. Caiff plant lleol ddysgu hanes a'u hachub yr un pryd! Caiff Solomon ei rhedeg gan Cymunedau Cyntaf ac fe'i defnyddir fel cwch achub ar gyfer clwb ceufadau newydd sy'n cael ei sefydlu gan Cymunedau Cyntaf. Caiff Solomon ei gadw ar y 'Versadock' a phan na fydd ar waith gyda'r clwb ceufadau bydd ar gael i Glwb Hwylio Pwllheli a CHIPAC a'r digwyddiadau.

Cafwyd cyllid pellach gan CCAUC ar gyfer 2010 fydd yn caniatáu i'r coleg

also with the support of grants from the **Sports Council of Wales** and **Cist Gwynedd**. 4 of the Optimists have been sold on to Shotwick sailing club.

Changes to the Junior training committee . Jane Butterworth has now volunteered to be in charge of marketing within the club Amlyn ap Iorwerth has been invited to join the committee because of his fund raising skills. Ffion Williams of Cymunedau Cyntaf has also been co-opted on to the committee.

Coleg Meirion Dwyfor with the aid of a grant from Higher Education Funding Council of Wales (HEFCW) has built a new safety rib. The rib will be officially launched in May and will be named Solomon , after Solomon Andrews who developed so much of Pwllheli in 1890. The local children will be taught history while being rescued! Solomon will be operated by Cymunedau Cyntaf and will be used as a rescue boat for a new kayaking club which is being set up by Cymunedau Cyntaf. Solomon will live on the versadock when not been used by the kayaking club and will be available to PSC to help CHIPAC and other major events.

Further funding from HEFCW has also



adeiladu cwch-ddydd 19 troedfedd - Rebecca a rib achub. Unwaith eto, bydd rhain yn cael eu rhedeg gan Cymunedau Cyntaf, Cewch ragor o wybodaeth am Rebecca cyn hir. Byddai pob awgrym am enw i'r rib newydd yn cael ei groesawu.

Erbyn diwedd y flwyddyn roedd gan CHIPAC 60 aelod gweithredol. Diolch i'r holl wirfoddolwyr wnaeth i hyn fod yn bosibl.

been obtained for 2010 which will allow the college to build a 19ft dayboat- Rebecca and a safety rib. These again will be operated by Cymunedau Cyntaf, more details about Rebecca will be announced soon. Any suggestions for a suitable name for a rib will be much appreciated.

CIP - The Pwllheli youth club are currently painting a large sailing mural which will be mounted on the new galley.

The CHIPAC membership by the end of the year has 60 active members. Many thanks to all the volunteers who make this happen.



CYRC—sy'n sefyll am 'Club Youth Racing Circuit' sef cyfres o rasus sydd yn cael eu cynnal ar draws Gogledd Cymru drwy gydol y flwyddyn . Enillodd CHIPAC dlws y gyfres drwy cael y nifer fwya o blant yn cystadlu ac yn llwyddo. Mae'r llun isod yn dangos rhai o enillwyr CYRC ar ol iddynt gystadlu yn y gystadleuaeth dwytha yn Gresford.

Mae'r cystadlaethau eleni wedi cael ei cynnal ym Mhwllheli, Penamenawr, Traeth Coch a Gresford. Yn y llun isod mae Chloe Butterworth a Christopher Jones gyda'i gwobrau, Cychwynodd Christopher hwylio yn 2009 ac mae Chloe yn awr ar ei ail flwyddyn o hwylio.

Mae'r CYRC yn gyfle gwych i blant gystadlu i ffwrdd o Bwllheli ond mewn cwmni rhai gwynebau cyfarwydd.

O'r chwith i'r dde yn y llun mae **Christopher Jones** enillydd y fflyd efydd mewn optimist yn Gresford, **Gethin Ll Owen** enillydd Fflyd Aur yr Optimist,
**William Filby** ennillyd y fflyd 'General Handicap',
**Josh Davies** ennillydd Fflyd Arian y Topper,
**Indeg Ll Owen** enillydd Fflyd Arian yr Optimist a
**Chloe Butterworth** ennillydd y Fflyd Efydd yn yr Optimist .

## CYRC– Enillwyr yn Gresford



Sylwadau Gan Ruth Iliffe ,Swyddog Datblygu Hwylio, Cymdeithas Hwylio Cymru:-
" The Christmas regatta as usual was a fantastic event and with lots a of new people attending their first event at CH Pwllheli SC. A fantastic impression was made, which goes miles in building a clubs reputation".

# Datblygiad Proffesiynol




Uchod: Mari Davies gyda Alan Williams , Plas Menai.

**Bydd angen i bob hyfforddwr CHIPAC fod wedi cwbwlhau yr hyfforddiant canlynol:-**
**Diolch i pawb sydd wedi cytuno: Alan, James, Clive, Martin, Christian, Nicholas, Aiee, Mike.**

| | |
|---|---|
| **Prawf hwylio** | **2 ddiwrnod** |
| **PB2—profi digon da i ddrei-fio cwch modur** | **2 ddiwrnod** |
| **Cwrs Hyfforddiant** | **5 diwrnod** |
| **Tystysgrif Cymorth Cyntaf** | **1 diwrnod** |
| **Tystysgrif CRB** | |
| **Diweddariad blynyddol** | **1 diwrnod** |

9 am ddilyn y cwrs DI (hyfforddwyr)

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm** | **11 diwrnod** |

Professional Development

# LASER + TOPPER

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Aimee Aubigny Saracco-Jones |
| **Oedran:** | 15 oed |
| **Math o gwch:** | Laser Radial |
| **Pa Sgwad:** | Welsh National Laser Radial Squad |
| **Canlyniadau gorau:** | 1st girl and second laser radial @ Welsh Schools in Tenby. Being selected as one of the 40 uk sailors for transitional training. |
| **Profiad gorau 2009**: | bod yn aelod o ITCA GBR Topper National Youth Squad a Welsh Laser Radial Squad yn yr un blwyddyn mewn cychod gwahanol. |
| **Profiad Gwaethaf 2009:** | y cawod yn parc carafanau Largs. Mae'n syn dod fy mod heb dal 'Legionaire disease'. haha .. |

# Aimee Saracco-Jones - Sgwad Cymru



# LASER 4.7/RADIAL

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Siwan Bryn Roberts |
| **Oedran:** | 17 oed |
| **Math o gwch :** | Laser 4.7 / Radial |
| **Sgwad :** | Sgwad hwylio laser 4.7 Cymru |
| **Canlyniad gorau 2009 :** | Laser UK national championship 4.7 fleet - 17th, 3rd girl, 2nd welsh. |
| **Profiad gorau :** | Tri diwrnod cynta'r nationals, cael canlyniadau da a mwynhau rasio yn y 4.7. Cymdeithasu da ar y nosweithiau! Mwynhau trafeilio i lawer o'r cystadlaethau hefo Aimee yn y campervan. |
| **Profiad gwaethaf:** | Y pedwerydd diwrnod yn yr RYA Youth National Championships yn Largs. Cael ein hel allan mewn gwyntoedd mawr ar ol bore ar y lan gan fod Princess Anne yn ymweld! Fy mhrofiad ra sio gwaethaf gan fod cymaint o gusts cryf a shifts mawr yn golygu llawer iawn o cap sizes!! Cael ein hel i mewn ar ol un ras gan fod y tywydd yn gwaethygu. |

## Siwan Roberts - Sgwad Cymru



# OPTIMIST




Mari Davies - Sgwad Gogledd Cymru

Llun: Peter Newton

103F3363_f.jpg

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Mari Davies |
| **Oedran:** | 12 oed |
| **Math o gwch :** | Optimist |
| **Pa sgwad**: | Sgwad Optimist Gogledd Cymru |
| **Canlyniad gorau 2009:** | Optimist Winter Champs- merch gyntaf yn y f flyd arian/ 6ed yn y fflyd |
| **Profiad gorau 2009**: | Cael gwahoddiad i'r ymarfer genod yn Rhydy chen. |
| **Profiad gwaetha 2009**: | Pitch pole a mynd o dan fy nghwch yn yr Inlands yn Grafham! |

# OPTIMIST



## Iago Davies -  Sgwad Gogledd Cymru

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Iago Davies |
| **Oedran:** | 10 oed |
| **Math o gwch :** | Optimist |
| **Pa sgwad:** | Sgwad Optimist Gogledd Cymru |
| **Canlyniad gorau 2009:** | 8fed yn yr regatta fleet yn yr Optimist Inlands yn Grafham |
| **Profiad gorau 2009:** | Rutland 2009- croesi'r llinell yn ail allan o 115 i gychod yn un o fy nghystadleuthau main fleet cyntaf. |
| **Profiad gwaetha 2009:** | Optimist Winter Champs- Gorfod dod yn ol i'r lan yn Datchett oherwydd y gwynt oedd yn chwythu dros 30 not. |

## OPTIMIST




Llun: Peter Newton

# Gethin Llewelyn Owen - Sgwad Gogledd Cymru-

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Gethin Gwynedd Llewelyn Owen |
| **Oedran:** | 9 oed |
| **Math o gwch:** | Optimist |
| **Pa sgwads:** | Sgwad Optimist Gogledd Cymru |
| **Canlyniad gorau 2009:** | 1af (am gyfnod) yn y fflyd Regatta - Optimist Inlands yn Grafham |
| **Profiad gorau 2009:** | Ennill 2 ras allan o 3 yn Grafham a meddwl am gyfnod fy mod i wedi ennill y gystadleuaeth + hyfforddiant Alan Williams |
| **Profiad gwaetha 2009:** | diwrnod olaf o hwylio yn Largs—tywydd ofnadwy a lot ol wlaw a niwl. Darganfod fy mod wedi dod yn 2il yn Grafham yn diwedd |

# OPTIMIST

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Indeg Llewelyn Owen |
| **Oedran:** | 11 oed |
| **Math o gwch :** | Optimist |
| **Pa sgwad:** | Sgwad Optimist Gogledd Cymru |
| **Canlyniad gorau 2009:** | 138 allan o 250 yn Grafham—fy nghys tadleuaeth 1af Prif fflyd |
| **Profiad gorau 2009:** | dod yn 92 allan o tua 250 yn Grafham ar fy niwrnod cyntaf yn y main fleet a llwyddo i beidio capseisio trwy'r dydd. |
| **Profiad gwaetha 2009:** | Capseisio ar y llinell gychwyn yn Rhydychen a mynd ar draws pawb arall!!! |

# Indeg Llewelyn Owen - Sgwad Gogledd Cymru




Llun: Peter Newton

# TOPPER JDP

**Name:** Matthew Butterworth
**Height:** 1.55mtr
**Weight**: 48 kg
**Favourite food:** Sausage, beans and mash
**Favourite computer game:** Call of Duty
**Dislikes**: Getting up in the morning

2009 was my first year sailing nationally with events far and wide around the Country. I started in March with the Topper Winter Regatta in Bassenthwaite (near Cockermouth in Cumbria) and have ventured to Grafham, Derwent, Tenby, Mumbles, Oxford, Red Wharf Bay and my favourite Pwllheli for the UK Nationals and Welsh Youth Championships.

The year has been a great experience for me and I progressed well over the season and have learnt a great deal about sailing in large fleets. The Nationals in Pwllheli had 345 boats and I was pleased in making the Silver Fleet and ended up 185th overall, my final regatta and highlight of the season was the Welsh Youth Championships where I managed to get 7th overall. With my results in qualifying events over the year I am now training in the GBR Topper Junior Development Squad over the winter months with further visits ahead to Oxford, Grafham, Weymouth and Bradwell in Essex in preparation for a busy 2010 season.

The Nationals in 2010 are again in Pwllheli so I am looking forward to another busy and challenging year where I hope to progress to the Gold Fleet and continue to progress and be ranked higher nationally.

….further visits ahead to Oxford, Grafham, Weymouth and Bradwell in Essex in preparation for a busy 2010 season.

## Mathew Butterworth - Sgwad Cymru



# ➔OPTIMIST BY THE LEE

Fy uchafbwynt wrth hwylio yr optimist eleni oedd yn ystod cystadleuaeth Ieuenctid Cymru yn mis Medi ym Mhwllheli. 'Roeddwn wrth fy modd pan gefais drydydd mewn ras yn erbyn goreuon Cymru.

Gwynt eithaf ysgafn oedd ar y penwythnos yma, felly 'roedd hyn yn siwtio fi. Cefais gychwyn da ar y ras ac yna canolbwyntio ar yr hwyl a'r gwynt ac yna croesi'r llinell i orffen yn drydydd.



# Jordan Lee -  Sgwad Gogledd Cymru

‘Rwyf wedi mwynhau cael teithio i Largs yn yr Alban hefyd.
Yno cefais gyffwrdd mewn dolffin oedd yn nofio heibio i’r cwch ar ddiwrnod llonydd braf. Nid oedd gwynt y diwrnod hwnnw. ‘Roeddwn yn bumed o fewn fflyd o wythdeg saith, ond yn ystod diwrnod olaf yr hwylio cawsom wynt a glaw, ‘roedd yn chwythu dros 30 knot. Yn anffodus collais tua pump lle y diwrnod hwnnw a dod yn ddegfed. Hogyn lleol o’r enw Alistair ddaeth yn gyntaf, bu i mi wneud ffrindiau da hefo fo. Dywedodd efallai y byddai’n dod i Bwllheli i hwylio gan fod ei dad wedi clywed ei fod yn le da iawn i hwylio.

Dwi wrth fy modd yn cael hwylio yn CHIPAC ac wedi dod yn ffrindiau mawr hefo pawb. Dwi yn gobeithio cael symud ymlaen i hwylio cwch rasio i ddau cyn bo hir, dwi’n siwr y bydd hyn yn hwyl go iawn. Diolch i bawb am fy helpu.

**Jordan Lee**



# Fy nhymor cyntaf yn Chipac



Llun: Peter Newton

## Nel Bere

Cyn cychwyn hwylio gyda Chipac roeddwn i yn teimlo'n nerfus iawn. Nid oeddwn yn sicr o fy mhethau yn y cychwyn ond erbyn y diwedd roeddwn yn ei weld yn hawdd. Cwrddais â llawer o blant newydd yng Nghlwb Chipac. Dyna, yn fy marn i oedd y darn y cefais fwyaf hwyl oedd cael hwylio gyda phlant newydd. Ar y nosweithiau gwyntog a glawog roeddwn i yn ofnus iawn!! Ond pan roedd hi yn braf, roedd hwylio gyda Chipac yn wych!! Fe ddysgais i lawer o bethau newydd fel sut i rigio, sut i ddefnyddio'r gwch ar y môr a sut i lansio'r cychod lawr ar y lan y môr! Y peth anoddaf i mi yn bersonol oedd mynd gyda'r gwynt. Yn y cychwyn roedd hi'n anodd iawn i fynd gyda'r gwynt ond erbyn i mi ei ddeall roedd yn iawn. Y peth y gwnes i fwynhau fwyaf oedd y Regata yn yr Haf. Cefais i lawer o hwyl yn hwylio ac yn cael barbiciw. Roedd y 'Regata' yn wych!! Roeddwn yn cael gymaint o hwyl ar y môr yn bwyta 'jaffa cakes'! Roeddwn wrth fy modd yn rasio gyda fy ffrindiau, ond ni chefais lawer o hwyl arni!! Roeddwn i yn hoffi cael mynd dros y tonnau mawr, roedd yn hwyl cael mynd drostynt! Yn fy nhymor cyntaf roeddwn yn ofnus iawn o 'capsailio', ond fe lwyddais i aros yn iawn yn fy nghwch. Cefais i lawer o hwyl yn hwylio gyda Chipac!

**Nel Bere**

# Urien Davies-Hughes Tymor Cyntaf




I have wanted to start sailing for some years and I was really excited to have the chance to start the 10 week course with CHIPAC last July. I was amazed to see how quickly I progressed. The first week our Toppers were held safely by ropes to stop them from drifting away, but very soon to be able to sail alone was a great feeling.

I love living by the sea and felt very grateful to have this opportunity to sail. I am also a keen surfer and so spend alot of my time on or in the sea, sailing has now added to my confidence and knowledge. Learning to sail has been a lot of fun and the volunteers support have made me feel very safe.

I knew if I made any mistakes out in the sea there were at least 3 boats to come to my rescue! My mum was glad of this also as I tend to capsize a lot!

Everyone has been really friendly to me, and I have made many new friends through the club.

I took part in the winter trainings in Pwllheli and in the Christmas regatta- it was good practice for me, and good to have the opportunity to do more sailing.

## I'm saving hard to buy my own Topper

I'm saving hard to buy my own topper, but would also like to raise money for the club, so I hope to plan a sponsored 6/8hr surf in the Spring.

I'm really grateful, to Gwyndaf for making my lessons fun with lots of learning and also would like to say a big thank you to all those who gave their time freely. I'm looking forward to some good sailing this year, gaining more experience and learning more skills.

Diolch i pawb— Urien

# Fy nhymor cyntaf cystadleuol yn CHIPAC

## Chloe Butterworth




Llun: Peter Newton

My name is Chloe Butterworth and I am 10 years old. I sail an optimist. In 2009 I was 5th in the Welsh Schools regatta fleet in Tenby. I got 2nd in the regatta fleet in Red Wharf Bay, 4th in the Welsh Youths and 1st in Gresford and was 1st overall in the CYRC series in the regatta fleet.

In 2010 I am looking forward to moving into the main fleet and will be competing in a lot more regattas and hope to compete in the regatta fleet in the Topper Nationals in Pwllheli.

5th in the Welsh Schools Regatta fleet in Tenby.
2nd in the regatta fleet in Red Wharf Bay
4th in the Welsh Youths
1st in Gresford.

# Fy nhymor cyntaf yn CHIPAC

## Rhys Owain Jones




Llun: Peter Newton

Rwyf yn mwynhau cymdeithasu gyda gweddill criw CHIPAC yn enwedig y nosweithiau blasu ar nos Lun. Cefais hwyl ar y cystadlu yn ystod pencampwriaeth hwylio ysgolion Cymru ac yn y disgo i ddilyn.

Maen rhaid fod hwylio yn y gwaed . Fi ydi y pedwerydd cenhedlaeth o'r teulu i hwylio trwy'r clwb. No pressure felly...... a gwnaeth Uncl Gwyndaf ddysgu Dad hefyd.

Diolch i pawb sydd yn helpu gyda'r holl waith trefnu RJ

Fi ydi y pedwerydd cenhedlaeth o'r teulu i hwylio trwy'r clwb.



# Josh Davies
# Sgwad Cymru

2009 has been a very interesting and exciting year for me.

Having had a second hand racing topper in December 2008, I sailed as often as possible, weather permitting, even on Boxing day.

I had winter training in Port Dinorwic . I trained with CHIPAC and raced in the CYRCS.

My first big race was in Grafham, (Magic Marine Inland, 4.2 Nationals Championship) , first time sailing on a lake, I was 10th.

I also sailed after school in Porthdinllaen bay .

I was asked to crew on an Etchels in a championship at Holyhead, May. It was windy but very exciting with the spinnaker, this was a great opportunity to sail with top class national sailors.

I then had a week camping with my dad in Red Wharf bay where we had topper training and CYRC & Topper Traveler racing at the weekend. The weather was windy at times one tent was blown to bits.


July was busy the Topper Welsh School Championship at Tenby, where I was 18th and CYRCs in Penmaermawr,

**I was 5th at this event.**

During the summer I sailed in the mirror Worlds with my cousin Nicholas in Pwllheli, we were 4th overall in the Beach Worlds. Straight after that, I undertook the Topper Magic Marine Nationals in Pwllheli which was really good

## ➔Toppers

# Nationals +CYRC



with mixed weather and 340 boats, I was 81st in the Bronze fleet.

At the beginning of August I undertook the life boat bay race with Nefyn sailing club from nefyn beach to Porthdinllaen lifeboat in my topper and there 45 mix dinghy's. During the summer I raced at Nefyn sailing club also.

In September I went to Mumbles and took part in the Topper Craftinsure National Series, where I came 158th. I also sailed with a friend in a cadet, one evening (CHIPAC) also in September I undertook the WYA Volvo Welsh Youth and Junior championship in Pwllheli, I was 20th.

In October I went to Gresford for the last of the CYRC's, the wind was very gusty and interesting racing, where I was 3rd in the event . I came first in the silver fleet in the CYRC series for the year.

Monday 12th of October 2009, I found out that I had been selected for the welsh topper National squad , I could not believe it, I was over the moon, a great achievement for all the hard work that had been undertaken to date.

I had three days of double handed training in Plas Menai on a RS Feva and then went to Pwllheli at open winter training.

Josh DAVIES

GB CAMPS Aimee

# GB TRANSITIONAL TRAINING CAMPS

On the 6th of October I received my letter offering me a place in the RYA Great Britain Transition Training camp (Laser) at Weymouth.

This camp consisted of approximately 40 sailors, boys and girls looking to Transition from Junior boats to the Laser. Phase 1 of the camp was made up of 3 weekends, 2 training and one counter race selection weekend together with the results of the November Inlands at Rutland.

The first weekend in October went well under the guidance of some of the top coaches in the country. At the end of the weekend we had two races so that the coaches could see where we where at. I was first girl in my group in both races.

The Inlands were next. Unfortunately on the Saturday qualifying winds were light which favoured the smaller lighter girl sailors. I narrowly missed out on the Gold fleet selection. Day two my bad luck continued when my kicker broke at the beginning of race two. Despite this I managed a 12th position and was second girl in the silver fleet overall. My main 'competition' for the Transition places were at the back of the Gold fleet.

I was a little disheartened but determined to improve in the next training at Grafham and the final selection races in Weymouth. At the final weekend of selection races my luck changed, the conditions suited me perfectly, I was ready and my boat couldn't have been prepared any better. We had four races and I came first girl in two and was third and fourth in the others. I hoped that I had done enough to win one of the three girl places for the GB Laser Radial Transition Squad.

Unfortunately it was not to be. A week later I got my 'Dear John' letter from Kirsty Bonnar RYA Single Handed Pathway Manager, thanking me for my effort and commitment. Although disappointed I have made many new friends, including the three girls that were chosen. I wish them well and look forward to racing against them this summer. The experience I've gained will hopefully put me in good stead for the rest of my Youth sailing. I have learned so much from the other talented sailors and a amazing coaches.. well done to Tom Piggott and Ross Moreton who were selected flying the flag for Wales…….

Aimee.

Prif Gystadlaethau– Mari Davies

**Pencampwriaethau Optimist Y Gaeaf**
**28-29ain o Dachwedd 2009**

# Datchet 2009,

Cystadleuaeth Hwylio Optimist y Gaeaf ar Gronfa Dwr Datchet, ar gyrrion Llundain. Cefais i (Mari) a fy mrawd Iago fynd adref o'r ysgol am 12: 00 er mwyn cyrraedd am amser rhesymol! Ond parhaodd y siwrne 6 awr a hanner. Cyrhaeddom ni yng Nghlwb Hwylio Datchet Water am tua 7 o'r gloch a roedd y gronfa ddŵr yn dawel, heblaw am yr awyrennau a oedd yn codi i'r awyr o Heathrow pob 90 eiliad! Mae Castell Windsor ar lan y llyn ond doedd dim golwg o'r Cwin!

Roedd tymheredd wrth y gronfa tua 4 gradd celsius a roedd pawb yn crynnu tra oedd Dad yn dadfachu'r cychod. Roedd cofrestru yn dechrau am 8:30 ar fore dydd Sadwrn felly dechrau cynnar i bawb, ond cefais frechdan bacwn yn ty ein ffrindiau cyn mynd i'r clwb. Am wynt! Roedd y gwynt yn anhygoel o gryf, yn codi i 30 'Knot'. Roedd lansio'r cychod yn her ynddo'i hun. Aeth y dwr i mewn dros top waders Dad wrth iddo geisio yn lansio ni ac aeth Ieuan (tad Emlyn-Felinheli) i fewn at ei ganol yn ei jins! Methodd traean cwblhau'r un ras oherwydd y gwynt garw. Aeth Iago allan ar y dwr ond method a chwblhau'r ras gyntaf oherwydd ei fod o'n rhy ysgafn. Yn y ras cyntaf fe lwyddais i gael safle 40, a safle 36 yn yr ail ras, allan o 86 o hwylwyr.

Roedd 171 yn cystadlu i gyd ond roedd y rasus yn rhannu'r hwylwyr yn ddau. Methais a chwblhau'r drydydd ras oherwydd fy mod i'n rhy oer. Ar ol diwrnod o rasio fe rannwyd y cystadlaewyr i ddau fflud, Arian ac Aur. Methais allan o le yn y fflyd Aur o ddau safle. Ar Ddydd Sul roedd y gwynt fymryn yn is ond cafwyd mellt a thrannau a hyd yn oed cenllysg allan ar y llyn. Cefais safleoedd 13, 25 a 32. Gadawodd hyn fi yn chweched trwyddi draw a'r ferch gyntaf yn y fflyd Arian.Cafodd Iago diwrnod gwell o lawer gan orffen yn 4ydd yn un ras allan o 86.

Fe wnes i fwynhau y brofiad yn fawr, er y gwynt, y glaw a traffic yr M6!

Gan **Mari Davies**

Prif Gystadlaethau– Gethin Owen

# PENCAMPWRIAETH YR " INLANDS" MAI 2009




**Fe ddechreuais hwylio 2 flynedd yn ôl pan oeddwn yn 7 oed.** 'Roeddwn eisiau hwylio gan fod Indeg (fy chwaer) yn mwynhau ac am fod dad yn ei hyfforddi a phlant eraill yn CHIPAC.

Fe wnes fwynhau wythnos o gwrs hwylio yn Haf 2007 a bu i mi gymryd rhan yn fy ras CYRC gyntaf yn Aberdyfi pan oeddwn yn 7 oed. Yn anffodus wnes i ddim hyd yn oed cyrraedd y llinell gychwyn gan i mi fynd yn sownd yn y tywod meddal!

Cefais hwyl yn cymryd rhan yn y Bencampwriaeth Optimist Genedlaethol ym Mhwllheli ym 2008 yn y fflyd regata efo Mari, Iago, Indeg a Jordan. 'Roedd o'n lot o hwyl gan fod Dai (y trefnydd) yn dysgu caneuon digri newydd i ni bob diwrnod. Erbyn hyn roedd mam a dad wedi prynu cwch I mi sef "Puddles".

Ym 2009 gan fod Indeg a minnau yn cael ein hyfforddi efo sgwad Gogledd Cymru 'roeddem wedi penderfynu ein bod am drafeilio ymhellach i gystadlu.

Ym mis Mai 'roedd pencampwriaeth yr 'Inlands' ar y llyn yn Grafham. Yn anffodus ar y dydd Sadwrn gan ei bod yn chwythu'n egr gawsom ni ddim rasio a bu'n rhaid i ni ddod i mewn. 'Roeddwn i'n genfigennus iawn o'r brif fflyd yn cael aros allan, ond roedd yna ddigon o bethau eraill i'w gwneud a digon o gwmpeini i chwarae rygbi a phêl droed.

Bore dydd Sul roedd y gwynt wedi tawelu rhywfaint ac felly roeddwn yn hapus o ddeall ein bod yn cael mynd allan i rasio.Cefais gychwyn eithaf da yn y ras gyntaf ac roeddwn ar y blaen o'r cychwyn, roeddwn yn hapus iawn o weld fy mod wedi ennill y ras.

Wnes i ddim cystal yn yr ail ras gan fod yna rhyw ddryswch efo'r cwrs, ond yn y ras olaf roedd y gwynt wedi codi ac yn dechrau bwrw. Ar y marc cyntaf aeth pawb bron at y marc

# Prif Gystadlaethau– Gethin




anghywir, roeddwn i wedi gweld y marc arall lle'r oeddwn yn gallu pwyntio yn syth i'r gwynt ac es amdano. Erbyn y diwedd fe lwyddais i guro'r ras o tua 50m!

O weld fy mod wedi ennill dwy allan o dair ras fe wnaethom benderfynu aros i'r seremoni wobrwyo, er bod yna daith hir yn ôl adra (ac ysgol diwrnod wedyn!). Fe anfonodd Richard (tad Aimee) neges i ffon dad i ddweud fod y canlyniadau ar y we a fy mod wedi ennill y bencampwriaeth Regatta - 1af allan o 100.

Pan aethom i'r seremoni wobrwyo roeddwn yn teimlo'n hapus a balch iawn ond pan ddaethant i enwi'r enillwyr yn y fflyd regata dwedodd fod yna rywfaint o newid wedi bod yn y safleoedd ac mai ail gefais i. 'Roeddwn yn teimlo'n flin ac yn drist iawn, ond fe ennillais siaced achub a tharian fach. Fe wisgais y siaced achub yr holl ffordd adra yn y car! Os ewch i safle we SailRacer mae'n enw i'n dal yno fel yr enillydd!! http://tinyurl.com/yeevfca

Uchafbwyntiau eraill o'r flwyddyn diwethaf oedda hwylio yn y brif fflyd yn Largs a Rutland er na wnes i'n dda iawn yn yr un o'r ddwy gystadleuaeth yma. 'Roedd yn fraint cael cyfarfod Ben Ainsley a chael ei lofnod yn Largs.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rwyf wedi bod yn ffodus iawn i ennill dipyn o dariannau:

Little charger – Pencampwriaeth Cenedlaethol Pwllheli 2008

Enillydd Fflyd Arian CYRC – 2008

Enillydd Fflyd Aur CYRC – 2009

2il Inlands Grafham (Regata) – 2009

A'r ddwy darian Optimist CHIPAC 2 flynedd yn olynol!

Rhydychen

# Indeg - Hwylio yn Rhydychen

Oxford

Fis Gorffennaf y llynedd cefais wahoddiad i benwythnos hyfforddi hwylio i genod yn Rhydychen. 'Roedd y gwahoddiad yn ddibynnol ar ein canlyniadau yn yr 'Inlands' yn Grafham ym mis Mai. O Gymru 'roedd Mari (o Fethesda), Jemma a Ciara (o Gaerdydd) a finnau a thua 15 merch arall o weddill Prydain. Roeddem yn cael ein hyfforddi ar y ddau ddiwrnod ac yn hwylio ar gronfa ddwr Farmoor. Yr hyfforddwr oedd Alan Williams, o'r Felinheli (sef prif hyfforddwr sgwad Optimist Prydain) Ollie Green a Maria.

'Roeddynt yn canolbwyntio ar ein dysgu ni i hwylio mewn "gust a lull", gwahanol ffyrdd o eistedd yn y cwch a sut i hwylio mewn shifts gwynt. Yng nghanol un o'r rasys bach fe aeth Mari i mewn i gwch arall gan achosi twll yng nghwch yr hogan arall!

Yn y nos roedd hin bwrw ac roedd hin anodd iawn cysgu yn y glaw mewn tent! I wneud pethau'n waeth fe wnaeth dad a Huw wneud i ni gerdded o gwmpas Rhydychen yn y glaw i edrych ar y colegau gwahanol!

Fe wnes lawer o ffrindiau newydd ac fe ges i eu cyfarfod eto yn Largs yn ystod gwyliau'r Haf. Fe wnes fwynhau'r hwylio yn Rhydychen.



OPTIMISTLASERSTOPPERS

CHIPAC

# RASIO ENILLwyr

| | Math o gwch | Safle | Enw | Tlws |
|---|---|---|---|---|
| CYFRES A | | | | |
| | Laser. | 1af | Siwan | Llong Hwyliau(Cefn Hedog.) |
| | | 2il | William | |
| | Topper | 1af | Iolo | Llong Hwyliau |
| | | 2il | Josh | |
| | | 3ydd | Mathew | |
| | Optimist | 1af | Gethin | Llong Hwyliau. |
| | | 2il | Iago | |
| | | 3ydd | Mari | |
| CYFRES B | Laser | 1af | William | Helarewe Cup |
| | | 2il | Joe Bowen | |
| | Topper | 1af | Iolo | Cae Plan Cup |
| | | 2il | Mathew | |
| | | 3ydd | Josh | |
| | Optimist | 1af | Gethin | Plac |
| | | 2il | Indeg | |
| | | 3ydd | Iago | |

➔OPTIMISTLASERSTOPPERS

# CHIPAC

# RASIO tymor cyNtaf

| Hwylwyr tymor cyntaf | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Grwp A | Topper | 1af | James | Cwpan Fach. |
| | | 2il | Hannah | |
| | | 3ydd | Tomos | |
| | Optimists | 1af | Chloe a Rhys | Cwpan Fach |
| | | 2il | Shona | |
| | | 3ydd | Christopher | |
| Grwp B | Topper. | 1af | Urien | Cwpan Fach |
| | | 2il | Ffion | |
| | | 3ydd | Manon | |
| | | 1af | Caleb | Cwpan Fach. |
| | | 2il | Harry | |
| | | 3ydd | Rhiryd | |
| Hwyliwr gorau yn cystadlu i ffwrdd. | | | Aimee. | Toestraps Cup. |
| Hwyliwr gorau yn hwylio adref. | | | Iolo. | Tlws John Baguley. |

## ➔John Baguley Cup

**Like the rest of the crew of Sunrunner John Baguley had discovered competitive sailing late in life and had always marvelled at the expertise of young sailors tacking and gybing with ease in their dinghies over the bay.**

**After we lost John in August 2008 following a very short illness the remaining crew decided they would like to donate a sailing trophy to PSC in his memory.**

**We were thrilled, as John would undoubtedly have been, to learn that the cup was to be awarded to the overall winner of the CHIPAC youth sailing programme on an annual basis. John's elder son Jack was especially pleased to be able to present the cup to the first ever winner at the club in October 2009.**

**Regards from the crew of Sunrunner,**
**Paul,Denis,Robert & Howard.**

# Prosiectau eraill
# Other Projects

## Cydweithio gyda Partneriaeth
## Working with external partners

# Cymunedau Cyntaf
# Coleg Meiron Dwyfor
# Prifysgol Bangor

Mae Coleg Meirion Dwyfor mewn partneriaeth gyda Clwb Hwylio Pwllheli, Cymunedau Cyntaf a'r prifysgol wedi adeiladu RIB . Dyma lythyr gan Ffion Williams yn cymeradwyo y prosiect

Coleg Meirion Dwyfor are building a RIB for Communities First South Pwllheli. Here is a copy of the supporting letter from Ffion Williams

Mae Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf De Pwllheli yn falch iawn o gydweithio gyda Choleg Meirion Dwyfor a Chlwb Hwylio Pwllheli ar brosiect Ymestyn yn Uwch. Mae cynyddu'r cyfleoedd i bobl ardal Pwllheli ddefnyddio adnoddau naturiol gwerthfawr lleol, mewn modd fforddiadwy yn un o brif flaenoriaethau ein rhaglen waith am y ddwy flynedd sy'n weddill o raglen Cymunedau'n Gyntaf.

Mae'r prosiect Ymestyn yn Uwch yn bartneriaeth weithio dda rhyngom ni a'r Coleg gyda chwch Rib yn



cael ei hadeiladu gan fyfyrwyr peirianneg morwrol, ac yn cael ei rhoi yn rhodd i'r Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf De Pwllheli ei defnyddio fel rhan o weithgareddau Clwb Antur Dwyfor. Sefydlwyd y Clwb gan Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf De Pwllheli er mwyn canfod a hyfforddi gwirfoddolwyr lleol i gynnal sesiynau awyr agored fforddiadwy a dwyieithog i blant ac oedolion lleol a gwneud y mwyaf o'r adnoddau naturiol bendigedig sydd o'n cwmpas. Cynhelir sesiynau dringo wythnosol ar nosweithiau Mercher 5-7pm ar wal ddringo'r Ganolfan Hamdden ac mae criw newydd o wirfoddolwyr padlo wrthi'n hyfforddi ar hyn o bryd er mwyn cynnal sesiynau yn y pwll nofio ac ar ddwr agored yr harbwr a thraethau'r dref cyn yr Haf. Mae'r Clwb yn falch iawn o'r cyfle i gydweithio gyda'r Coleg ar y prosiect Ymestyn yn Uwch, ac yn ddiolchgar o dderbyn y Rib fel rhodd gwerthfawr. Hebddi, ni fyddai'n bosib i'r Clwb Antur gynnal sesiynau padlo i'r cyhoedd yn yr awyr agored. Am fwy o wybodaeth am sut y gallwch chi ymuno a'r Clwb Antur a sut y gallwch wirfoddoli cysylltwch â Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf De Pwllheli ar (01758) 701 685.

Mae'r prosiect Ymestyn yn Uwch yn ein galluogi i gynyddu cyfleoedd hyfforddi a hamdden trigolion lleol yn y maes morwrol ac rydym bellach yn cydweithio ar gam 2 y prosiect sef adeiladu cwch hwylio ac ail gwch rib. Byddwn yn cydweithio gyda'r Clwb Hwylio i hyfforddi gwirfoddolwyr Clwb Antur Dwyfor mewn

COLEG MEIRION-DWYFOR

PRIFYSGOL Y GYMUNED COMMUNITY UNIVERSITY

communities first cymunedau yn gyntaf

cymhwyster Gyrru Cwch Pŵer Lefel 2 a Cwch Achub. Bydd nifer o glybiau eraill Cymunedau'n Gyntaf De Pwllheli hefyd yn gwneud defnydd o'r 3 cwch yma, gan gynnwys Clwb Natur Lon Cob Bach a CIP, sef Cynllun Ieuenctid Pwllheli sydd ag 160 o aelodau 11-25 oed. Edrychwn ymlaen at eu defnyddio i roi blas y môr a phrofiadau positif i drigolion yr ardal!


Ymestyn Uwch
Coleg Meirion Dwyfor
Prifysgol Bangor
Cymunedau Cyntaf
Clwb Hwylio Pwllheli

Gyda'n gilydd gallwn geisio llenwi'r bwlch sy'n bodoli ym maes chwaraeon awyr agored Cymru, gyda phrinder hyfforddwyr proffesiynol sy'n siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn rhwystr i gynnal gweithgareddau awyr agored i ieuenctid lleol. Drwy hyfforddi gwirfoddolwyr i gynnal sesiynau, gallwn roi blas i bobl ifanc gyda'r gobaith y bydd gyrfa mewn chwaraeon awyr agored yn un opsiwn gyrfa ychwanegol.

Rydym yn rhagweld y bydd defnydd helaeth yn cael ei wneud o'r cychod oherwydd ein cysylltiadau ni, ymroddiad ein gwirfoddolwyr a'r ffaith fod gweithgareddau awyr agored wedi ei gynnwys ar gwricwlwm ein hysgolion. Rydym yn falch iawn o'r cyfle arbennig yma o gael bod yn rhan o'r cynllun gwych yma ac yn edrych ymlaen at gydweithio dros y blynyddoedd nesaf.



# Cymdeithasu


Dinbych y Pysgod. Tenby


Largs



Disco



Noson sosij a chips. Annual prize giving


Toppers, Pwllheli

# SPLASH 2009



Bleddyn Mon. Arbennig. World Class

Tomos Moore ai Dad

Richard Hughes. Dibynadwy. Dependable

Seremoni agoriadol Splash

Neil Russell—Myfyriwr Coleg Meirion Dwyfor



Splash Pwllheli

# ➔Laser 2009


Siwan Largs

# ➔SPLASH 2009 Pwllheli


Aimee—Pwllheli


Splash Worlds—Pwllheli

# Aelodau CHIPAC 2009

| | |
|---|---|
| Aimee S. Jones | Jo Bowen. |
| Alice Jones. | Jordan Lee. |
| Anne F.Prichard. | Joseph Thurston. |
| Ben Jones. | Josh Davies. |
| Caleb W.Lewis. | Joshua  Meyerratken. |
| Catrin Drake. | Liam Griffiths. |
| Catrin Rosewarne. | Manon B.Jones. |
| Ceirion D.ab Owain. | Mari Davies. |
| Chloe Butterworth. | Mathew Butterworth. |
| Christopher Jones. | Molly Wright. |
| Deio Owen. | Nel S.Bere. |
| Emma Gosling. | Nicholas Butterworth. |
| Ffion B.Jones. | Peruf ab Owain. |
| Gareth Roberts. | Rhiryd S. ab Owain. |
| Georgia T.Davies. | Rhun Hughes. |
| Gethin G Ll Owen. | Rhys O.Jones. |
| Gwenllian Hughes. | Rhys Tudor. |
| Hannah T.Davies. | Shona ab Iorwerth. |
| Harri Roberts. | Sian Rosewarne. |
| Harry T. Davies. | Sion Adams. |
| Huw Tudor. | Siwan Roberts. |
| Iago Davies. | Steffan Tanner. |
| Indeg Ll Owen. | Sydney Meyerratken. |
| Iolo bryn. | Tomos S.Coles. |
| Jack Flowers. | Urien Hughes. |
| James T. Davies. | Wil Adams. |
| Jannie Lotter. | William Filby. |

**Sioe Ffasiwn, cwis, prydau bwyd a discos—dyma rai o'r gweithgared-dau mae'r pwyllgor cymdeithasol wedi'u trefnu i godi dros £1062 i gef-nogi CHIPAC. Diolch mawr iawn i Jan Ranner a Mair Hulse am eu gwaith.**

***Fashion shows, quizzes and parties are among the many events that have been organised by the social committee, who have raised over £1062 last year.*** **CHIPAC is not cheap to run and without this money our equipment would not be of the high standard it is*****. A big big thank you to Jan Ranner and Mair Hulse for all their fund raising activities during 2009.***

## Os am ymuno â CHIPAC cysylltwch â Gwyndaf ar 01758 613504

**Ffotograffwyr:-Peter Newton,Martin Jones,Eifion Owen,Richard Jones,Paul Todd,Gareth Roberts, Paul Filby,Richard Tudor**

**Diolch yn fawr i'n cefnogwyr:-**

**Reardon Smith**
**Firmhelm**
**Cymdeithas Hwylio Cymru**
**Carl Kammerling International**
**Cyngor Chwaraeon Cymru**
**Coleg Meirion Dwyfor**
**Cist Gwynedd**
**Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**Clwb Hwylio Pwllheli**
**Glan Don**
**Pwllheli**
**01758 613343**

**Ebost: chipac@pwllhelisailingclub.co.uk**
**www.pwllhelisailingclub.co.uk**

**Cost : Am ddim**
**Ond unrhyw gyfraniad i CHIPAC yn cael ei werthfawrogi**

**Cost : FREE**
**But any donations to CHIPAC gratefully appreciated**